Joseph Parry: 1841–1903

# Y cerddor aflonydd

**Dyfalbarhad / cariad at ei faes**

Naw oed oedd Joseph Parry pan ddechreuodd weithio ym mhwll glo Roblins am hanner coron (12½c heddiw) am weithio lleiafswm o 56 awr yr wythnos. Pan oedd yn 12 oed symudodd i weithio i waith haearn Cyfarthfa. Byddai'n llafurio'n galed drwy'r wythnos heblaw am y Sul. Y diwrnod hwnnw, byddai'n mynd i'r Ysgol Sul am naw o'r gloch y bore. Wedyn yn y pnawn i'r Neuadd Ddirwestol i ymarfer gyda chôr Rosser Beynon. Wedyn, oedfa yng Nghapel Bethesda a'r ysgol gân yn dilyn, ac yna swper a newid ei ddillad i fynd i'r gwaith yng Nghyfarthfa i ddechrau shifft hanner nos.

Dyma oedd trefn ei flynyddoedd cynnar ym Merthyr Tudful. Yn fuan ar ôl i Joseph ddechrau yn y gwaith haearn, ymfudodd ei dad, Daniel, i Danville, Unol Daleithiau America, i chwilio am waith gyda'r gobaith o gael gwell bywyd ar gyfer ei deulu. Ymhen y flwyddyn ymfudodd Elizabeth, ei wraig, a'i phedwar plentyn at ei gŵr. Am ddeuddeng mlynedd bu Joseph yn gweithio yn y melinau rholio haearn yn Danville.

Yn ystod ei blentyndod a chyfnod ei arddegau ymddiddorai mewn cerddoriaeth. Roedd ei fam yn gantores a byddai yntau wrth ei fodd yn canu alto yng nghôr Capel Bethesda, Merthyr Tudful. Byddai wrth ei fodd hefyd yn gwrando ar Seindorf Bres Cyfarthfa, yn enwedig pan fydden nhw'n gorymdeithio yn eu lifrai drwy strydoedd y dref. Pan oedd yn byw yn Danville cafodd wersi canu gan un oedd wedi ymfudo o Ferthyr i'r ardal honno. Ar ôl iddo fagu hyder cerddorol, dechreuodd gysylltu â Chymru ac yn arbennig yr Eisteddfod Genedlaethol. Enillodd sawl gwobr ond yr hyn roddodd fwy o foddhad iddo oedd y ffaith fod yr Eisteddfod yn barod i dalu iddo dderbyn addysg gerddorol yn yr Academi Gerddorol yn Llundain. Doedd yna ddim troi'n ôl bellach.

Bu'n llwyddiannus iawn fel myfyriwr. Ond yn ôl yr aeth i Danville cyn ei benodi'n bennaeth Adran Gerdd newydd Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Tra oedd yn Aberystwyth paratôdd yn helaeth ar gyfer ei fyfyrwyr a Chymru benbaladr. Trwy'r cwbl, cymerai ddiddordeb mawr yng ngwaith yr Ysgol Sul. Yn y cyfnod hwn y cyhoeddodd *Telyn yr Ysgol Sul,* sef casgliad o emynau gan

Thomas Lefi a thonau ganddo ef ei hun. Nod y casgliad hwn oedd cael ei ddefnyddio gan Ysgolion Sul o wahanol enwadau ledled Cymru. Tri rhifyn o'r cylchgronau hyn a ymddangosodd.

Mae emyn-donau Joseph Parry yn dal yn boblogaidd. Efallai mai'r un fwyaf poblogaidd o'i eiddo ydi'r dôn "Aberystwyth". Ymhlith y tonau eraill mae "Siriol deb", "Duw a'n gwnaeth", "Mae popeth yn dda". Dal ati i gyfansoddi y bu drwy gydol ei oes. Ymhlith ei operâu mae *Blodwen*, *Arianwen* a'r *Ferch o'r Scer*. Mae naws grefyddol iawn i'w gantawdau, fel y mae'r teitlau'n awgrymu: *Y Mab Afradlon*, *Jerusalem*, *Nebuchadnezzar*, *Moses Bach* a *Iesu o Nasareth*.

Er ei fod wedi symud yn ôl a blaen o Gymru i America, teimlai'n sicr mai yma yng Nghymru roedd ei galon. Yma y bu'n gweithio'n egnïol dros wella cyfleusterau addysg gerddorol i bobl Cymru. Trwy gydol ei oes bu â diddordeb yng ngwaith yr Ysgolion Sul trwy gyfansoddi emyn-donau ar eu cyfer. Ei nod oedd creu cerddoriaeth oedd yn wir Gymreig.

"Molwch ef â sain utgorn,
Molwch ef â thannau a thelyn,
Molwch ef â thympan a dawns...
Bydded i bopeth byw foliannu'r Arglwydd."
Salm 150:3,4,6

O Dduw,
rydyn ni am gyflwyno'n gorau i ti,
trwy offerynnau cerddorol
a thrwy ddefnyddio'n llais
i ganu dy glodydd.
Amen.

Pam nad oes llawer o 'fynd' ar waith Joseph Parry heddiw?
Tybed ai gwaith ar gyfer ei gyfnod ei hun oedd ei gerddoriaeth?